Cyngor Meddygol Cyffredinol

Rheoleiddio meddygon
Sicrhau arfer meddygol da

CMC a gweithdrefnau cwyno lleol: arweiniad I achwynwyr

1 Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r camau y byddwn yn eu cymryd pan fyddwn yn cael cwynion nad ydynt yn rhai addas i CMC ymchwilio iddynt, ond y mae angen eu cyfeirio at gyflogwr meddyg er mwyn sicrhau na cheir pryderon ehangach ynghylch addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol.

Rôl CMC

2 Mae'n pwerau a'n sancsiynau yn gysylltiedig gyda'n cyfrifoldebau dros gynnal cofrestr y meddygon sy'n gallu gwneud gwaith meddygol yn y DU. Mae'n pwerau Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol yn canolbwyntio ar y pryderon mwyaf difrifol, a allai fwrw amheuaeth ar addasrwydd meddyg i wneud gwaith meddygol, a pha mor addas yw hi eu bod yn cadw gafael ar eu cofrestriad digyfyngiad fel meddyg. Nid corff cwyno cyffredinol ydym, fodd bynnag, a bydd mwyafrif y cwynion a wneir am feddygon yn cael eu trin yn lleol, gan gyflogwyr meddygon.

Gweithdrefnau Lleol

3 Mae'n rhaid i'r holl gyrff GIG a nifer o sefydliadau gofal iechyd preifat feddu ar eu gweithdrefnau eu hunain er mwyn delio â chwynion. Yn aml, mae gweithdrefnau lleol mewn sefyllfa well i gynnig yr esboniad, y tawelwch meddwl neu'r ymddiheuriad y bydd claf yn dymuno'i gael efallai. Yn ogystal, maent mewn sefyllfa well i asesu a oes unrhyw broblemau ehangach yn bodoli y bydd angen delio â nhw efallai.

Pa gamau y bydd CMC yn eu cymryd?

4 Fel arfer, dim ond cwynion a allai arwain at gamau ffurfiol y byddwn yn ymchwilio iddynt. Byddwn yn adolygu'r holl gwynion newydd er mwyn nodi'r rhai y bydd angen i ni ymchwilio iddynt ein hunain, oherwydd bod posibilrwydd y gallai'r materion fod yn rhai difrifol. Byddwn yn cyfeirio at y rhain fel cwynion Ffrwd 1.

5 Ni fydd nifer o'r cwynion y byddwn yn eu cael yn perthyn i'r categori hwn. Mae hyn oherwydd bod y pryderon a fynegir, ar eu pen eu hunain, yn annhebygol o olygu y bydd angen i ni gymryd camau ffurfiol yn erbyn y meddyg. Byddwn yn cyfeirio at rhain fel cwynion Ffrwd 2.

6 Pan fo'r meddyg yn gweithio o fewn GIG (neu mewn rhai amgylchiadau, ar gyfer sefydliad preifat sy'n meddu ar weithdrefn gwyno gydnabyddedig), byddwn yn cyfeirio unrhyw gwynion Ffrwd 2 ymlaen i'r sefydliad lleol perthnasol, er mwyn ceisio cadarnhad nad oes unrhyw faterion yn bodoli ynghylch addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol, y bydd angen hysbysu CMC ohonynt. Mae'r sefydliad lleol (yn hytrach na CMC) yn gyfrifol am benderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn neu gymryd unrhyw gamau pellach. Fel arfer, byddwn yn cyfathrebu gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol neu'r Prif Weithredwr yn y lle cyntaf.

7 Pan fyddwn yn cyfeirio'r gŵyn ymlaen i'r sefydliad lleol, byddwn yn gofyn iddynt gadarnhau i ni nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw bryderon difrifol am y meddyg a allai olygu bod angen i ni gymryd camau er mwyn diogelu cleifion.

8 Yn yr achosion hynny pan fo meddyg yn cael eu cyflogi fel locwm neu er mwyn gwneud gwaith preifat yn unig (ac eithrio meddygon a gyflogir gan rai cyflogwyr preifat), byddwn yn cysylltu â holl gyflogwyr y meddyg er mwyn cael manylion ynghylch unrhyw gwynion blaenorol, cyn i ni benderfynu a fydd angen i ni gynnal unrhyw ymchwiliad pellach.

Pwy fydd yn penderfynu a yw cwyn yn gŵyn Ffrwd 1 neu'n gŵyn Ffrwd 2?

9 Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan reolwr ymchwilio profiadol.

Pam ydych yn gofyn am fy nghaniatâd i pan na fyddwch yn bwriadu ymchwilio i'r gŵyn a wneuthum?

10 Hoffem gael eich caniatâd chi er mwyn i ni allu datgelu'r gŵyn i'r meddyg a chael manylion eu cyflogwr. Mae hyn yn golygu bod modd i ni gyfeirio'r mater at gyflogwr y meddyg. Byddwn yn gofyn i'r cyflogwr gadarnhau nad oes ganddynt unrhyw bryderon am y meddyg y bydd angen i ni ymchwilio iddynt yn eu barn nhw.

A fydd CMC yn cysylltu â mi pan fydd yn clywed yn ôl gan y sefydliad lleol?

11 Pan fyddwn yn cyfeirio cwyn at gyflogwr/corff contractio meddyg, ni fyddwn yn cysylltu â chi eto, oni bai ein bod yn penderfynu cynnal ein hymchwiliad ein hunain yn nes ymlaen, o ganlyniad i wybodaeth ychwanegol yr ydym wedi'i chael.

Beth fydd yn digwydd os bydd y cyflogwr yn nodi unrhyw bryderon?

12 Os bydd cyflogwr y meddyg yn nodi unrhyw bryderon difrifol am y meddyg, sy'n ymwneud â'r gŵyn benodol neu sy'n bryderon mwy cyffredinol, byddwn yn cynnal ein hymchwiliad ein hunain i addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol. Ar ddiwedd ein hymchwiliad rhagarweiniol, bydd dau archwiliwr achos yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r meddyg ymlaen i wrandawiad gan y Panel Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol, er mwyn ystyried addasrwydd y meddyg i wneud gwaith meddygol.

Gwybodaeth bellach

13 Dylai'r sefydliad lleol fod yn gallu rhoi rhagor o fanylion i chi am y gweithdrefnau lleol perthnasol. Yn ogystal, dylai fod modd iddynt roi manylion i chi am sefydliadau a allai fod yn gallu eich helpu i wneud eich cwyn.

14 Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am weithdrefnau CMC ynghylch Addasrwydd i wneud Gwaith Meddygol trwy droi at wefan CMC sef **www.gmc-uk.org.**